

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau (Diwygio) Plaladdwyr 2019

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Cafodd Rheoliadau (Diwygio) Plaladdwyr 2019 ("y Rheoliadau") eu gosod gerbron y Senedd ar 1 Hydref. Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma: <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2019/1290/contents/made>

Crynodeb o'r Rheoliadau a'u Nod

3. Prif nod y Rheoliadau yw i gywiro hen gyfeiriadau at Reoliad (CE) Rhif 1107/2009 ar osod cynnyrch amddiffyn planhigion ar y farchnad, yn dilyn diwygio y Rheoliad hwnnw gan Reoliad (UE) 2019/1009 sy'n pennu y rheolau ar gyfer sicrhau bod cynnyrch gwrtaithe yr UE ar y farchnad. Mae Rheoliad (UE) 2019/1009 yn darparu ar gyfer eithrio y cynnyrch sy'n cael eu cyfeirio atynt fel biogyfnerthwyr o gwmpas Rheoliad Rhif 1107/2009. Mae angen i'r gofyniad gofrestru cynnyrch amddiffyn planhigion o dan Reoliad (CE) Rhif 1107/2009 fod yn llym i sicrhau bod pobl a'r amgylchedd yn cael eu hamddiffyn. O ganlyniad maent yn golygu costau a baich reoleiddio gweddol drwm ar fusnesau. Bydd sylweddoli nad oes angen awdurdodi cynnyrch biogyfnerthwyr o dan reoliadau cynnyrch amddiffyn planhigion yn cael ei groesawu gan randdeiliaid sy'n datblygu ac yn ceisio marchnata cynnyrch o'r fath. Mae felly'n angenrheidiol i sicrhau bod pob cyfeiriad at Reoliad (CE) Rhif 1107/2019 mewn deddfwriaeth gynradd ac eilaidd yn cael eu diweddarau.
4. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r diffiniad o "reoleiddiwr yn y Deyrnas Unedig" mewn perthynas â rheoliad 5(12) Rheoliadau Cynnyrch Amddiffyn Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012, i adlewyrchu'r ffaith bod cyrff sydd wedi'u henwebu i reoleiddio'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru a Lloegr wedi newid eu henwau.
5. Mae'r diwygiadau yn cynnwys amrywiol ddeddfwriaeth ym maes plaladdwyr, dŵr a'r amgylchedd.
6. Caiff y diwygiadau eu gwneud i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu fel y bwriedir iddo cyn i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Y rheswm am hyn yw nad yw hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth o angenrheidrwydd yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir (wedi'i

ddiweddaru) ac mae risg felly na fydd y llyfr statud yn gweithredu fel y'i bwriedir o ganlyniad i hynny.

7. Mae'r Rheoliadau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn cyfeirio atynt wedi'u gosod yn Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol, fydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig os nad oes gwrthwynebiad gan aelod o un o'r Tai Cyffredin. Os nad oes gwrthwynebiad o'r fath, bydd y darpariaethau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir ato yn y Memorandwm hwn yn dod i rym ar 31 Hydref 2019.

Darpariaethau i'w gwneud gan y Rheoliadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

8. Mae Rheoliad 2 y Rheoliadau yn diweddarau'r cyfeiriad at Reoliad (CE) Rhif 1107/2009 yn adran 43(3)(d) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, fel sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.
9. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y ddarpariaeth sy'n diwygio Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ei fod yn gysylltiedig â chynnyrch amaethyddol a gwrteithio. Ni chaiff y pynciau hyn eu rhestru fel cymalau cadw o dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Pam mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon?

10. Fel a nodir uchod, mae angen gwneud nifer o newidiadau i gywiro hen gyfeiriadau at Reoliad (CE) Rhif 1107/2009 o fewn deddfwriaeth ddomestig, cyn i'r DU ymadael â'r UE, i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu fel y dylai.
11. Barn Llywodraeth Cymru yw ei fod yn briodol ac yn gymesur bod newidiadau yn y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, oherwydd eu bod yn dechnegol a nifer a defnydd y ddeddfau sy'n cael eu diwygio. Gallai gwneud y diwygiadau hyn ar wahân arwain at fethu â gweithredu'r gyfraith fel y dylai, gan ei bod yn ansicr ac yn anhygyrch.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol a ragwelir ar gyfer Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn.

Lesley Griffiths AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Hydref 2019